POLISI DRONAU YMDDIRIEDOLAETH YNYS ENLLI

Dydy Ymddiriedolaeth Ynys Enlli **ddim yn caniatáu** hedfan dronau preifat am y rhesymau canlynol:

- Fe all hedfan drôn amharu ar fwynhad tawel ymwelwyr eraill ar Enlli ac fe all felly beri risg niwsans cyhoeddus.
- Mae rheoliadau AHS (Awdurdod Hedfan Sifil) yn nodi na ddylid hedfan dronau uwchben pobl na'n agos atyn nhw. Gan fod cymuned o bobl yn byw ac yn gweithio ar Enlli, gall hedfan dronau heb eu hawdurdodi beri risg i bobl.
- Pe bai drôn yn achosi difrod neu niwed, mae'n bosibl na fydd gan y rhai sy'n eu hedfan yswiriant digonol na'r lefel priodol o yswiriant ar gyfer digolledu'r rhai yr effeithir arnyn nhw.
- Fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA), Gwarchodfa Natur Genedlaethol ac Ardal Cadwraeth Arbennig, mae Enlli yn gartref i ystod o fywyd gwyllt ac anifeiliaid fferm sy'n sensitif i aflonyddwch ac fe all y drôn eu dychryn neu beri gofid iddyn nhw, yn enwedig yn ystod y tymor magu.
- Mae camerâu wedi eu gosod ar nifer o ddronau ac fe all y rhain wrthdaro â deddfwriaeth diogelu data (ffilmio pobl heb ganiatâd); hefyd mae gan hyn y potensial i wrthdaro â rheolau Ymddiriedolaeth Ynys Enlli o ran ffilmio a ffotograffiaeth fasnachol.

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil hefyd wedi darparu cyngor manwl parthed dronau yn y ddogfen CAP 722, *Unmanned Aircraft System Operations in UK Airspace: Guidance.*

Hedfan gan gontractwyr

Rydym yn caniatáu hedfan dronau ambell dro os ceir budd o ganlyniad i hynny. Ymysg yr achlysuron buddiol posibl mae cynnal arolwg adeiladau, gwaith archeolegol neu arolwg o fywyd gwyllt. Fodd bynnag, ar yr adegau yma, byddwn yn comisiynu'r gwaith penodol a bydd y dewis o gontractwr, ei allu (rhaid iddo fod wedi ei gofrestru fel gweithredwr masnachol cofrestredig o fewn yr AHS) a'r lefel a math o yswiriant yn cael eu gwirio'n ofalus. Hefyd, mae gennym nifer o reolau y mae'n ofynnol i'r contractwr eu dilyn wrth gynllunio a gwneud y gwaith.

Ffilmio

Fe allwn ganiatáu ffilmio masnachol gyda drôn o dan rhai amgylchiadau. Yn gyffredinol, rhaid i'r cwmni cynhyrchu ddilyn yr un rheolau parthed lefelau o allu ac yswiriant â'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer contractwyr. Hefyd, rhaid i'r ffilmio fod yn fasnachol ac wedi ei gytuno gyda swyddfa'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r Awdurdod Hedfan Sifil hefyd wedi darparu cyngor manwl parthed dronau yn y ddogfen CAP 722, *Unmanned Aircraft System Operations in UK Airspace: Guidance.*

Caniatâd/Ceisiadau

Dylid gwneud cais am ganiatâd drwy gysylltu â Swyddfa Ymddiriedolaeth Ynys Enlli: **post@enlli.org**. Rhaid gwneud cais am ganiatâd o leiaf pythefnos ymlaen llaw.

Bydd y caniatâd yn cynnwys trwydded gyffredinol i weithredu ar Ynys Enlli ar ôl dod i gytundeb gyda'r ffermwyr a Gwylfa Adar a Maes Enlli ynglŷn â thaith hedfan arfaethedig y drôn cyn cychwyn ar yr hedfan, a bydd yn ofynnol i'r hedfan gael ei oruchwylio gan staff yr Ymddiriedolaeth. Mae gan Ymddiriedolaeth Ynys Enlli ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer defnyddio dronau.

Er mwyn derbyn caniatâd rhaid darparu'r wybodaeth ganlynol cyn hedfan unrhyw ddrôn:

- Tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- Tystiolaeth o drwydded gweithredwr y drôn
- Asesiad risg priodol a digonol
- Mapiau o'r mannau cychwyn a glanio arfaethedig, a llwybrau hedfan y drôn
- Mae rhestr wirio, er enghraifft, cynnal a chadw'r drôn, trefnweithiau paratoi'r drôn, gweithrediadau cyn ac wedi hedfan, yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau bod pob agwedd o ddiogelwch y daith wedi ei gwirio.

Mae'r canllawiau isod hefyd yn berthnasol:

- Ni chaniateir hedfan yn uniongyrchol uwchben unrhyw eiddo na gerddi.
- Efallai y cyfyngir ar hedfan uwchben mannau neilltuol o'r ynys ar rai adegau o'r flwyddyn yn ôl y bywyd gwyllt fydd yn bresennol.
- Rhaid i ail unigolyn fod yn bresennol bob amser er mwyn gallu hysbysu am unrhyw argyfwng neu ddamwain.

Dyddiad: 02 Medi 2017

BARDSEY ISLAND TRUST DRONE POLICY

The Bardsey Island Trust **does not** grant permission for private flying of drones for the following reasons:

- The presence of drones can impinge on the quiet enjoyment of Bardsey by other visitors and therefore potentially presents a public nuisance risk.
- CAA (Civil Aviation Authority) regulations state that drones should not be flown above or near to people. As Bardsey has a community living and working here and visitors present, unauthorised drone flying potentially puts people at risk.
- If a drone causes damage or harm, pilots generally may not have adequate insurances, or level of insurances, to compensate those affected.
- As a Site of Special Scientific Interest (SSSI), a National Nature Reserve and a Special Area of Conservation, Bardsey is home to a range of wildlife and agricultural animals that are sensitive to disturbance and could be alarmed or stressed by the presence of drones, especially at breeding times.
- Many drones have cameras attached and these could infringe data protection laws (filming people without permission) and potentially could contravene Bardsey Island Trust rules on commercial photography and filming.

The Civil Aviation Authority has also provided detailed guidance regarding drones in the document CAP 722, Unmanned Aircraft System Operations in UK Airspace: Guidance.

Flying by contractors

We do occasionally grant permission for the use of drones if there is a benefit in doing so. Such occasions could include building inspections, archaeological work or wildlife surveys. However, in such cases we will specifically commission the work and the selection of contractor, their competence (they must be a registered commercial operator with the CAA) and the level and type of their insurance is carefully vetted. In addition we have a number of rules which must be observed by the contractor whilst planning and undertaking the work.

Filming

We may grant permission for drone-related commercial filming in certain circumstances. In general terms the production company must follow the same competency and insurance rules as those required for contractors. In addition the filming must be commercial in nature and agreed with our office.

The Civil Aviation Authority has also provided detailed guidance regarding drones in the document CAP 722, Unmanned Aircraft System Operations in UK Airspace: Guidance.

Permission/Requests

Permissions should be sought through contacting the Bardsey Island Trust office in the first instance: **post@enlli.org**. Permission must be sought at least two weeks prior to proposed flight.

Permissions will consist of a general permit to operate on Bardsey Island with the agreement that the farmers and Bardsey Bird & Field Observatory are in agreement with the proposed flight path of the drone before take-off commences under the supervision of Trust staff. The Bardsey Island Trust hold permission granted by Natural Resources Wales for the use of drones.

In order for permission to be granted the following information must be provided in advance of any flight:

- Public liability insurance certificate
- Proof of drone operator's license
- A suitable and sufficient risk assessment
- Maps of proposed take-off and landing points and flight paths.
- Checklists covering, for example, drone maintenance, pre-deployment operations, pre-flight operations and post-flight close out are a useful way of ensuring that all aspects of flight safety have been checked.

In addition to this the following guidelines also apply:

- No flights will be allowed directly over any property or gardens.
- Flights may be limited over certain areas of the island at certain times of the year dependent on the wildlife.
- A second person must always be present to enable the alarm to be raised in case of an accident.

Date: 02 September 2017